# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 5 GORFFENNAF 2021 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Dinbych yn Blodeuo







Tud.4



Plannu'r goeden afalau surion - hanes tud. 4



Mrs Catherine Jones (Pennaeth 6ed dosbarth) gyda Beth, Owain ac Elizabeth tud 12



Un o môr ladron Ysgol Twm o'r Nant - tud 18-22



'Gair o gysur' - tud. 6

## Llwyddiant yn yr Eisteddfod T



Dafydd Allen



Dafydd Jones



Mabli Mai Davies



Ethni Glwys Davies



Boas Davies
Hanes llawn tud.



**Llongyfarchiadau i Steffan a Sian Jones ar ei diwrnod priodas yn y Capel Mawr ag yna Melin Brwcws ar 29.05.2021. Diolch i Andras Iago a phawb oedd yno i**



Uned dan 5

Hanes dan Ysgol Twm o'r Nant

uned dan 11 →

Uned dan 9







## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
Stan Lyall 813659

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'
CYMRAEG

# Gair gan y Golygydd

Mae cyffro mawr yma yn Ninbych a thros Gymru gyfan. O'r diwedd mae'r Ewros wedi dechrau ar ôl cael eu gohirio am flwyddyn oherwydd Covid-19. Mae'r siopau a'r tafarndai wedi bod yn brysur yn addurno eu ffenestri er mwyn cefnogi Cymru. Er nad wyf yn gefnogwr brwd o bêl-droed rwyf wedi mwynhau gwylio'r gemau a dilyn Cymru drwy'r gystadleuaeth. Y mae'r Ewros, heb os, wedi rhoi Cymru ar y map ers 2016! Mae'r ymdeimlad eto eleni o hunaniaeth a balchder o fod yn Gymro a Chymraes yn yr awyr. Y mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn her i ni gyd yma yng Nghymru ac pha well ffordd na chael y gendl i gyd-dynnu na chefnogi ein tim pêl-droed. Yn unol a slogan y tîm 'Gorau Chwarae cyd-chwarae'.

**Martha Cordiner**

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Hydref**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Medi 17**

## Capel y Fron

Bore Sul Ebrill 16eg. Braf iawn oedd cael addoli gyda'n gilydd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers cyfnod y clo dros flwyddyn bellach. Fe wnaeth Richard Snelson lywyddu ac fe wnaeth groesawu yr aelodau oedd wedi mentro nifer oedd y canllawiau Covid-19 yn caniatau. Y mae ein diolch yn fawr i Richard am gael yr adeilad yn barod i ni i gyd addoli ac y mae Gaynor a Wendy wedi bod yn cymorthwyo gyda'r trefniadau hefyd. Ar gyfer y gwasanaeth yr oedd Wendy wedi trefnu cyfarfod Gweddi gyda Gaynor, Wendy a Dilys yn cyfranu at y gwasanaeth gyda Iona Edwards yn chwarae'r organ er and oedd caniatad i ni ganu. Fe wnaeth Richard gyfeirio at y golled y mae y capel wedi ei wynebu trwy farwoaeth Gwyrfai Jones yn y Gwanwyn ac yn anfon ei cofion at Heather a'r ddwy ferch Nia a Helen a'u teuluoedd. Yr ydym yn gobeithio y byddwn yn gallu cynnal gwasanaethau yn weddol gyson o hyn ymlaen ar yr un trefniadau a Capel Mawr, mi fydd y manylion yn y Cadwyn Bro.

Bore Sul Ebrill 30ain, arweinwyd y gwasanaeth gan ein Gweinidog ac fe wnaeth Richard Snelson estyn croeso iddo a diolch iddo am ei waith gyda'r gwasanathau ar zoom ar hyd y cyfnod clo. Yr ydym yn anfon ein cofion at Gwyneth Morris sydd yn cartref Plas Gwyn rwan ac y mae Tegwen Williams wedi cael triniaeth yn ysbyty Gabowen a Margaret McCall yn ysbyty Glan Clwyd.

Bore Sul Mehefin 6ed arweinwyd y gwasanaeth gan ein Gweinidog ac fe wnaeth estyn gwahoddiad i'r aelodau ymuno yn y Sacrament o swper yr arglwydd. Diolchwyd i'r Gweinidog gan Gaynor Prew ac hefyd fe wnaeth anfon ein cofion fel aelodau at Mr a Mrs Dewi Owens. Mae Dewi wedi derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Glan Clwyd. Yr ydym hefyd yn cydymdeimlo ac yn anfon ein cofion at Mr a Mrs Gareth Morgan y mae Gareth wedi colli brawd ynghyfraeth yn ddiweddar ac hefyd yn ystod y Gwanwyn y mae Carys a Rhagfyr Jones wedi cyfarfod a phrofedigaeth. Bu chwaer Rhagfyr farw yn y Borth, Aberystwyth.

Bore Sul Mehefin 13eg yr oedd yn oedfa y Sul yma yn y Capel Mawr gyda'r Parch Bernard Thomas. Trefnant yn gwasanaethu.

## Capel Y Brwcws

Mae yn anodd credu fod bron i ddeunaw mis wedi pasio ers inni gael y gwasanaeth olaf yn y Brwcws. Ar hyn o bryd mae rheolau Covid yn ein rhwystro rhag cyfarfod yn y Brwcws. Er i drefn y brechu fynd yn well na'r disgwyl mae y sefyllfa y Covid-19 yn gwaethygu eto yn yr ardal ac amryw o ddosbarthiadau yn yr ysgolion wedi cael eu heffethio. Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn hunan ynysu.

Erbyn hyn mae mwy na blwyddyn Ysgol wedi mynd ers inni weld plant yn Ysgol Sul yn y Capel. Dymuniadau gorau i chi gyd - rhai wedi dechrau'r Ysgol ac eraill wedi gadael Ysgol gynradd am ysgolion uwchradd neu yn deybgol o wneud ym mis Medi. Rydym yn meddwl amdanoch.

Parhau gyda gwasanaethau ar y teledu, radio, zoom, FB neu You tube mae y mwyafrif ohonom gan edrych ymlaen at yr amser y cawn ddod at ein gilydd eto. Anfonwn ein cofion at y rhai sydd heb fod mewn iechyd da yn ddiweddar.

# Dinbych yn Blodeuo

Mae'n siwr bod pawb wedi sylwi bod canol y dref wedi cael ei drawsnewid ers dechrau mis Mehefin. Treuliodd tîm o wirfoddolwyr brwd ddau ddiwrnod yn llenwi basgedi rheiliau, potiau a phlanwyr mawr â blodau'r haf. Mae mwy o botiau a blodau yma nag erioed a diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u nawdd.



'Potiau i Siopau'

Nid yn unig yng Nghanol y Dref, a nid yn unig yn yr haf, mae'r tîmau yn brysur. Os cerddwch chi o'r Stryd Fawr i Temple Bar mi welwch chi risiau newydd fydd yn arwain at fainc newydd lle gallwch eistedd i edmygu'r ardd.



Grisiau Temple Bar

Mae nifer o blanwyr pren 'Croeso i Ddinbych' wedi cael eu hadeiladu a'u gosod wrth fynedfeydd y dref.

Plannwyd coeden afalau surion ym Mharc Isaf, wrth ymyl yr Inffyrmari, i ddiolch i weithwyr allweddol am eu hymroddiad yn ystod y pandemig.



Metron a dwy Uwchnyrs o'r Inffyrmari a Leah, Sefydlydd grwp Nad â'n Angof.



Plannwyd bylbiau newydd yng Ngardd Evan Pierce, gan ddilyn cynllun o'r gorffennol, a phlannwyd 4,000 o flodau saffrwm piws ar draws y dref ynghyd â Chlwb Rotari Dinbych.



Y prosiect mwyaf ar y gweill eleni yw tacluso a phlannu Parc Isaf, mewn cydweithrediad â'r Clybiau Tennis a Bowlio. Eisoes mae drain a iorwg wedi dechrau diflannu ac mae gwelyau blodau wedi cael eu plannu â phlanhigion parhaol, a blodau gwyllt ar gyfer peillwyr. Bydd Gardd Synhwyraidd yn cael ei lleoli ar ran o'r lawnt wrth y fynedfa, yn arbennig ar gyfer pobl sy'n dioddef o Dementia.

Blodau gwyllt ym Mharc Isaf

Bydd beirniaid Cymru yn ei Blodau yn dod i'r dref ar Orffennaf 21ain i fynd ar daith o gwmpas lleoedd penodedig yn y dref. Mae Dinbych wedi cael ei gwahodd i gystadlu yng nghystadleuaeth Prydain yn ei Blodau hefyd eleni, ond ni fydd y beirniaid hynny yn ymweld â'r dref oherwydd cyfyngiadau Covid. Rhaid anfon fideo o'r gweithgarwch atyn nhw yn lle, a gobeithio y cân nhw ddod y flwyddyn nesaf.

Diolch i'r holl wirfoddolwyr, y garddwyr, y tyfwyr planhigion, y dyfrwyr, y peintwyr, y tacluswyr, y codwyr sbwriel, y noddwyr, y cyfranwyr a'r holl gefnogwyr. Ond, mae angen mwy fyth o wirfoddolwyr cyn Gorffennaf 21ain. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â ni ar denbighinbloom@hotmail.com os gwelwch yn dda.

## Y BIGWN - TRYSORYDD

Rydym yn chwilio am Drysorydd cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
John Geraint Jones 01745 817485
jones_john@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659 stanmaberic@hotmail.com

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

PyBj

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk




Cathod! Na, yn groes i'r disgwyl dydwi ddim yn casáu'r rhywogaeth fel y cyfryw er nad oes yna yr un ohonyn nhw wedi bod yn rhan o'n teulu ni ers yn agos i hanner can mlynedd.

Tan hynny fe fu gennym ni sawl cath yn anifail anwes – rhai yn bethau digon annwyl, ac ambell un yn wyllt braidd. Yn rhyfedd ddigon wnaethom ni ddim rhoi enw ar unrhyw un ohonyn nhw.

Un o ddywediadau fy mam oedd, " Cath am dŷ, ci am deulu."

Fe brofwyd hyn imi pan wnaeth un o'r cathod ddianc yn ôl i'r hen gynefin pan oeddem ni'n mudo a phobl yn bygwth ein "riportio" ni i'r awdurdodau am droi cefn arni hi.

Roedd yna un gath frech yn arbennig yn gwybod i'r dim pryd y byddai fy mam dod adref o'i gwaith, ac yn gydymaith iddi ar ran olaf y siwrnai. A Mam, wrth gwrs, yn sgwrsio â hi ar y daith honno.

Ond - rhag i chi feddwl fy mod yn mynd yn sentimental yn fy henaint – mae gen i gŵyn am gathod.

Yn y gorffennol byddai cathod yn gwneud eu busnes yn y border yn yr ardd gan ei gladdu o dan y pridd.

Mae cathod y dyddiau hyn, fe ymddengys, yn wahanol, yn bowld i gyd ac yn gwneud eu busnes ar ganol y lawnt o bob man.

A ydy hyn oherwydd fod y gath fodern wedi mynd yn beth diog? Neu a ydy'r arferiad yma o'r "cat litter"wedi camarwain yr hen gath fach?

Bellach mae pobl yn arbrofi gyda phob math o gyfarpar a phowdrau i geisio cadw cathod o chŵn draw o'u gerddi.

Na, dydy'r gerddi acw ddim yn Wembley o bell ffordd, ond fe fyddwn i – a llawer un arall – yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gennych ynglŷn â'r busnes cathod yma.

..........................................

Mae yna ysgolion yn y cylch hwn gydag erwau ac erwau o gaeau chwarae, a da o beth ydy hynny. Caiff y caeau hynny eu torri a'u trin yn rheolaidd, ac maen nhw'n werth eu gweld , yn bictiwr o daclusrwydd.

Ond, yn anffodus, mae yna ambell ysgol -ac rydwi'n pwysleisio'r gair ambell - gyda chaeau nad ydwi byth yn gweld plant yn derbyn gwersi Addysg Gorfforol arnyn nhw nac yn diddanu eu hunain ar eu porfeydd gwelltog yn ystod yr awr ginio.

Pam ysgwn i?

A fedr unrhyw un fy ngoleuo i?

Stan Lyall

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.


Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Gair o Gysur

**Golygwyd gan
Elin Angharad Davies**

**'Llyfr cof a hiraeth;
ni all neb ei gau'**




**Mae'r profiad o golli rhywun annwyl yr un fath o un genhedlaeth i'r nesaf. Yr un ydi'r boen, a'r galar a'r hiraeth. Ond mae'r arferion cymdeithasol sydd ynghlwm â chydymdeimlo mewn profedigaeth wedi newid. Yn yr hen ddyddiau'r arfer oedd mynd i ymweld â'r profedigaethus gyda hanner pwys o de neu dun salmon, neu ynteu anfon llythyr neu gerdyn. Erbyn heddiw mae pobol yn aml yn anfon blodau, ffonio neu decstio, neu'n anfon neges trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol Facebook a trydar canolbwynt bywyd cymdeithasol cymaint ohonom. Yn aml gwelir rhes o galonnau a chusanau ar y negeseuon hynny, ond dim un gair. Ac eto mae lle i eiriau.**

**Ar ôl colli ei mam yn greulon o sydyn ddiwedd 2019, a'i thad ychydig flynyddoedd cyn hynny, aeth Elin Angharad Davies ati i sefydlu tudalen Facebook o'r enw Gair o Gysur, gan bostio cerddi o'i gwaith ei hun ac addasiadau, ynghyd â dywediadau cysurlon ar gefndir ffotograffau atmosfferig. Bu'r dudalen yn hit mawr gan ddenu ymhell dros ddwy fil o ddilynwyr, ac mae wedi cynnig cysur i lu a brofodd golled neu amgylchiadau anodd. Ond oherwydd natur fyrhoedlog y cyfrwng, diflanedig ydi'r postiadau arni, yn hytrach na rhywbeth solet y gellir troi'n ôl ato am gysur. Dyna fu'r sbardun i Elin fynd ati, ar wahoddiad Gwasg y Bwthyn, i lunio'r casgliad a welir yn y gyfrol Gair o Gysur.**

**Dywed Elin yn ei Rhagair mai gefn nos y byddai'n ysgrifennu neu addasu llawer o'r cerddi a geir yn Gair o Gysur, a bod hynny wedi ei helpu i ymdopi â'i galar. Yn ei bywyd bob dydd mae hi'n brysur: yn Bennaeth Cerddoriaeth yn Ysgol y Creuddyn, gwraig fferm yn ardal ysbyty Ifan a mam i bedwar o blant. Yn ogystal â thrin geiriau mae Elin yn delynores brofiadol ac mae cerddoriaeth yn bwysig i'r teulu cyfan.**

**Mae Gair o Gysur yn gyfrol gyfoes, gan adlewyrchu natur ein cymdeithas heddiw. Ceir yma gerddi, neu ddyfyniadau o gerddi crefyddol ac emynau, a dyfyniadau o'r Beibl hefyd, ochr yn ochr â chaneuon cyfoes gan feirdd mor amrywiol â Dewi Pws, Meinir Gwilym, Mei Gwynedd a Lleuwen Steffan. Mae'r caneuon o waith mam Elin, Margaret Edwards, yn 'canu yn y co', a cherddi Elin ei hun yn cyffwrdd y galon. Er bod y cynnwys yn ddwys mae'r ffotograffau o waith Iestyn Hughes, Lisa Elan Davies ac Aled Hall yn hyfryd ac yn codi'r ysbryd.**

**Dyma gyfrol werthfawr – wrth ddewis neges addas i'w rhoi ar gerdyn, neu ddarlleniad ar gyfer gwasanaeth coffa neu angladd, neu i'w rhoi'n anrheg i ffrind. Bydd llawer yn cadw eu copi wrth erchwyn y gwely. 'Rhannu'r geiriau' oedd nod Elin pan aeth hi ati i sefydlu ei thudalen Facebook ac wedyn wrth olygu'r gyfrol hon; llwyddodd yn sicr yn ei hamcan – rhwng dau glawr yma crynhoir cysur rhyfeddol geiriau.**

**Cyhoeddwyd y gyfrol er budd yr elusen meddwl.org**

**Mae Gair o Gysur ar gael yn eich siop lyfrau leol neu o gwales.com**

**Gwasg y Bwthyn, Caernarfon Clawr caled £9.00**

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

# Ble mae nhw rwan? Elen Berry



**Lle ti'n byw ar hyn o bryd?**
Dw i wedi bod yn byw lawr yn Nghaerdydd ers wyth mlynedd bellach, ond o fewn mis mi fyddai'n symud yn ôl i'r Gogledd ac i Gaernarfon.

**Beth yw dy yrfa?**
Dw i'n gweithio fel Meddyg Iau yn yr adran Feddygaeth Aciwt yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont. O fis Awst ymlaen mi fyddai'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

**Sut y byddet yn crynhoi gweithio mewn ysbyty yng nghanol y pandemig?**
Mi wnes i weithio mewn dwy ysbyty a gafodd eu taro'n ddrwg gan Covid-19. Brawychus a rhwystredig fyswn i'n ddefnyddio i ddisgrifio'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd hi'n chaos. Roedd pobl ifanc yn cerdded fewn i'r adran argyfwng ac o fewn oriau doedden nhw methu cynnal eu lefelau ocsigen ac roedden nhw yr uned gofal dwys. Ar yr un pryd, ro'n ni'n trio gwarchod y cleifion mwyaf bregus, ond roedd o jyst yn amhosib, ac roedd y teimlad o fethiant yn ofnadwy. Aeth pethau'n haws yn ystod yr ail don i ryw raddau gan ein bod ni'n gwybod mwy ac yn medru atal dilyniant y clefyd yn well. Ond nifer yr achosion nath ein llethu ni y tro yma.

Dw i'n meddwl mi wnaethom ni ddysgu lot drwy gyfnod y pandemig serch hynny; sut i oroesi fel tîm gan roi pwyslais ar gymryd gofal o'n gilydd a datblygu sgiliau cyfathrebu gyda chleifion a'u teuluoedd, ond hefyd rhwng adrannau gwahanol o'r gwasanaeth iechyd. Mi roeddem ni wrth gwrs, yn poeni am ein cyd-weithwyr. Wrth i nifer yr achosion godi yn yr ysbytai oedd mwy a mwy o ddoctoriaid a nyrsys yn dal Covid; a llawer yn mynd yn hynod o sâl. Dw i'n cofio penderfynu cymryd 'life insurance', jyst rhag ofn.

Roedd teimlo fel bod yna ddiffyg popeth yn gryf; doedd dim digon o staff, dim digon o PPE, dim digon o wlâu yn yr unedau gofal dwys. Roeddwn i'n gweithio dros nos dros gyfnod y Dolig a dwi byth eisiau profi cyfnod mor erchyll eto yn gweithio mewn 'sbyty. Dwi'n gobeithio'n arw na fydd yna drydedd ton.

**Beth wyt ti'n hoffi gwneud er mwyn ymlacio o dy swydd prysur?**
Dwi'n mwynhau coginio, ymarfer corff, cymdeithasu. Mae'n bwysig i mi i adael gwaith yn yr ysbyty a pheidio trafod dim pan dwi'n cyrraedd adref. Roedd mynd i gerdded yn ystod y cyfnod clo yn hwb mawr i ymlacio.

**Beth wyt ti'n edrych ymlaen i wneud fwyaf wedi'r pandemig?**
Mae hi wedi bod mor braf dros yr wythnosau diwethaf i gymdeithasu mwy gyda phobl eraill a gweld teulu a ffrindiau unwaith eto. Mae wedi bod yn rhyddhad, er ein bod ni'n cadw'n wyliadwrus, i agosáu ychydig at normalrwydd.

**Ydi gofyn cael mynd ar wyliau yn gofyn gormod?**
Fyswn i'n hoffi mynd yn ôl i Llydaw efo'r teulu; dydw i heb fod ers dros dwy flynedd erbyn hyn. Neu i rywle i ymlacio efo haul poeth a phwll nofio plis.

**Dy hoff le yng Nghymru?**
Does unman yn debyg i adref. A dw i wedi gwerthfawrogi hynny yn fwy na'm byd dros y flwyddyn diwethaf.


**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn 10 mlynedd?**
Diflas dwi'n gwybod ond dwi'm yn meddwl fydd fy mywyd i wedi newid rhyw lawer; dwi'n gobeithio gorffen fy hyfforddiant meddygol yn y Gogledd a chael swydd fel ymgynghorydd yma. Dw i ddim yn gweld ni'n symud yn rhy bell o Gaernarfon ond pwy a wŷr. Dwi'n edrych mlaen i weld beth fydd gan y 10 mlynedd nesaf i'w roi i mi. (Dim pandemig arall os gwelwch chi'n dda).





# Llwyddiant yr awdures Rebecca Roberts o Brestatyn.

**Cyn ddisgybl o Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yw Rebecca Roberts a wedi ei magu a'r aelwyd di-Gymraeg ac felly y mae hi'n ysbrydoliaeth fawr. Mae hi erbyn hyn yn enw adnabyddus ym maes llenyddiaeth Gymraeg wedi iddi ysgrifennu dau lyfr. Mudferwi oedd y cyntaf a #helynt sydd newydd ddod yn fuddugol yng ngystadleuaeth Tir na Nog.**





**Yn ystod y flwyddyn diwethaf rwyf wedi ail gydio yn fy hoffter o ddarllen ac pa well cyfle nac yng nghanol y cyfnod clo.**
**#helynt**
**Dyma lyfr sydd yn addas ar gyfer pob oedran yn ogystal â phlant yn eu harddegau. Mae Rebecca yn awdures sy'n ysgrifennu mewn ffordd naturiol ac sy'n ennyn y darllenwyr i barhau i ddarllen. Stori am hynt a helynt merch ifanc sydd yn ei harddegau o Rhyl yw #helynt. Mae'r stori yn berthnasol iawn i blant yn yr unfed ganrif ar hugain gan ei bod yn trafod materion dwys megis iselder, bwlio, cariad a chamdriniaeth domestic. Mae cyfrinach fawr yn cael ei dadorchuddio a all newid ei bywyd am byth. Mae Rachael yn ferch benderfynnol a chryf sydd yn barod i ddatgelu'r gwir am gefndir a chyfrinachau mawr y teulu.**
**Braf oedd cael darllen llyfr a oedd wedi ei leoli ar y Glannau, yng Nogledd Ddwyrain Cymru. Ardal sydd yn gyfarwydd iawn i ni yma yn Ninbych.**

## Mudferwi

**Dyma nofel ardderchog heb os. Mae gan yr awdures ddawn arbennig o ddweud stori. Mae'r cymeriadau a'r golygfeydd yn fyw yn eich meddwl wrth i chi ddarllen am daith Alys yn myd arlwyo yn ogystal â serch. Mae angerdd a hoffter Alys o goginio yn heintys. Llyfr a dyfnder ac ysgafnder yw Mudferwi. Braf yw gweld awdur sy'n portreadu merch gryf fel prif gymeriad a all ddal ei thir mewn sector sydd yn cael ei ddominyddu gan ddynion. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn gryf yn y llyfr wrth iddi ddechrau ei swydd cyntaf mewn bwyty wedi gwisgo fel bachgen. Rwyf yn awygrymu i chi fynd at i ddarllen y ddwy nofel. Ni fyddwch yn cael eich siomi!**

## Gair gan yr awdures

**Gofynnodd un o olygyddion Y Bigwn i mi ysgrifennu pwt yn sôn am fy nghymhelliant a fy ysbrydoliaeth wrth ysgrifennu 'Mudferwi' a '#Helynt'. Mae'n anodd penderfynu pryd yn union penderfynais fy mod i am ddod yn awdur. Anodd yw cofio amser pan ddoedd y syniad o weld fy enw ar glawr nofel ddim yn fy nghyffroi. Efallai ei fod mymryn yn ymhongar i ddweud y fath beth, ond teimlai'r dyhead i ddweud straeon wrth bobl eraill yn rhan gynhenid o fy nghymeriad.**
**O ran ysbrydoliaeth - mae'r un mor anodd dweud o ble daw hynny! Y prif gymeriad a'r heriau a wynebant yw fy mhwynt cychwyn ar gyfer pob un o fy nofelau, ac mae'r themâu a'r moeswersi'n amlygu eu hunain yn ystod y broses ysgrifennu.**
**Fel y mwyafrif o ddisgyblion yn Ysgol Glan Clwyd mae fy rhieni yn gefnogol o'r iaith Gymraeg, er eu bod yn methu ei siarad hi. Yn ifanc, ro'n i'n weddol ddihyder wrth ysgrifennu a darllen yr iaith, a ches i fawr ddim mwyhad wrth ddarllen nofelau Cymraeg. (Sy'n bechod mawr, achos dyna un o'r ffyrdd orau i wella sgiliau ieithyddol!) Wrth ysgrifennu fy ngwaith fy hun rydw i'n anelu i drafod emosiynau a themâu dwfn, ond i ysgrifennu mewn arddull ac iaith syml fel bod y stori yn hygyrch i ddysgwyr a darllenwyr dihyder, fel oeddwn i'n arfer bod. Yn ogystal â hyn, byddwn i wastad yn cadw mewn cof gall fy ngeiriau dylanwadu ar ddarllenydd, ac felly mae negeseuon cadarnhaol am hunan-barch, cyfrifoldeb, caredigrwydd a dewrder yn bwysig iawn i mi. Yn syml, rydw i'n ysgrifennu'r math**




**o lyfrau rydw i'n mwynhau eu darllen, a'r llyfrau oedd eu hangen arnaf fi'n ifanc.**
**Mae'r ymateb i fy nofelau hyd yn hyn wedi bod yn anhygoel, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno 'Chwerwfelys', dilyniant Mudferwi, ym mis Hydref eleni, a 'Y Defodau', nofel arall i oedolion, ar ddechrau 2022**

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru



Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO**

Dilynwch ni ar facebook flickr

Cwmulus https://cwmulus.org/

## Digwyddiadau

**Ynni Cymunedol Cymru**

**"Gweithredu cymunedol ar newid yn yr hinsawdd" oedd teitl darlith ar-lein Grant Peisley i ni yn ddiweddar. Mae Grant yn Gyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru a sylfaenydd Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), YnNI Teg, YnNi Newydd, YnNi Llŷn ac YnNi Lleu. Disgrifiodd y ffordd mae pobl ar draws Cymru ac ymhellach wedi bod yn dod at ei gilydd yn eu cymunedau i gydweithio ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddol dros y ddegawd ddiwethaf a mwy. Mae tua 175 o brosiectau ynni cymunedol amrywiol yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau trydan dŵr, trydan môr, twrbeini gwynt, paneli solar, ac ati, sydd wedyn yn arwain at fuddsoddiadau pellach yn y gymuned, fel bysiau trydan, pwyntiau gwefru ceir trydan a siopau cymunedol. Y prosiect diweddaraf yw Fferm Solar Bretton Hall, ar y ffin rhwng Sir y Fflint a Swydd Gaer, lle bwriedir cynhyrchu digon o drydan i gyflenwi 8,400 o gartrefi lleol. Mae'n bosib mai hon fydd y fferm solar gymunedol fwyaf yn y DU a bydd yn fodel ar gyfer ardaloedd eraill.**

**Erbyn hyn, oherwydd diffyg unrhyw weithredu ystyrlon ar lefel llywodraeth ers Deddf Newid Hinsawdd 2008, mae mentrau cymunedol yn dechrau ystyried ym mha ffyrdd eraill y gallant weithredu yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Mae nerth mewn cynnwys pobl leol yn natblygiadau lleol a dyma beth sydd tu ôl i sefydlu partneriaeth Gwyrdd Ni rhwng Deg a phump grwp cymunedol yng Ngwynedd, Cyd Ynni, Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths, Cwmni Bro Ffestiniog ac YnNi Llŷn. Brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd ar lefel gymunedol yw'r cam cyntaf i'r frwydr ar raddfa byd eang.**





### Silffoedd

**Diolch i Arwel am greu nifer o silffoedd pwrpasol i'r Amgueddfa er mwyn medru storio ac arddangos yr ychwanegiadau diweddaraf i'r casgliad.**



### Ymweliad rhithiol â'r Amgueddfa

**Ymwelodd 240 o aelodau'r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg â'r Amgueddfa yn rhithiol un noson i wylio darlith dechnegol ymarferol ar Falfiau Thermionig. Roedd y sesiwn yn arbrawf o dan gyfyngiadau Covid gan David wrth iddo ddefnyddio tri chamera i gyflwyno: un camera i ffocysu ar y falfiau, un arall i ddangos y wybodaeth dechnegol a'r deiagramau ar y siart troi, a'r llall i ffocysu ar y siaradwr. Yn y llun, mae David yn dangos sut mae falf arbennig yn gweithio. O'i flaen mae profwr falfiau AVO o'r pumdegau, a ddefnyddiodd i ddangos nodweddion gwahanol fathau o falfiau.**

### Darlithiau

**Dyma'r darlithiau nesaf yng nghyfres ar-lein yr Amgueddfa ynghyd â Cwmulus:**

**Ar 23.07.2021, bydd Steve Harris, Cyn-gyfarwyddwr Amgueddfa Ddarlledu Caer, yn siarad yn Saesneg am 'Cysylltiad â Lerpwl' – Teganau, Trenau a Setiau Di-wifr. Bydd yn sôn am ardal 'Old Swan' lle roedd dau weithgynhyrchwr cydrannau radio oedd â chysylltiadau diddorol, o drenau clocwaith i locomotifau trydan, gan gyfeirio yn arbennig at Hornby, Lotus, a Wingrove a Rogers.**

**Ar 20.08.2021, bydd Dr. Carl Clowes yn siarad am Herio Synnwyr – Gwawr Gwrtheyrn. Bydd yn rhoi cipolwg ar effaith cau'r chwareli yn ardal Nant Gwrtheyrn a'r angen am waith i gadw pobl yn eu cynefin ac i hybu'r iaith Gymraeg. Bron i 50 mlynedd yn hwyrach, cawn edrych yn ôl ar sefydlu a datblygiad rhyfeddol Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn.**

**Ar 24.09.2021, bydd Roddy Maclean, awdur, darlledwr ac addysgwr o'r Alban, yn siarad (yn Saesneg) am Mynydd agus Monadh: Mac-talla na Cuimris ann an Tìr nan Gàidheal, sef Mynydd a Monadh: Atseiniau o'r Gymraeg yn Nhirlun Gaeleg yr Alban. Bydd yn sôn am yr iaith Gaeleg ac yn nodi termau am dirwedd a natur sy'n darlunio'r cysylltiad sydd rhwng y Gaeleg a'r Gymraeg.**

**Croeso cynnes i bawb. Bydd y sgyrsiau yn cychwyn am 7.00 y.h. a rhaid cofrestru o flaen llaw - edrychwch ar y gwefannau uchod neu ar dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau am fanylion.**

# Llwyddiant yn yr Eisteddfod T

Bu'r safon yn yr Eisteddfod T eleni yn arbennig gyda mwy o aelodau wedi cystadlu nac erioed o'r blaen. Dros 12,000 o blant ac aelodau hŷn. Roedd pob math o gystadleuthau wedi eu cynnal yn yr wythnos; canu a llefaru yn o gystal a dweud jocs ac arbrofion gwyddonol. Rhywbeth at ddant pawb. Bu cylch Dinbych yn hynod lwyddiannus mewn llu o gystadleuthau. Dyma rhai o'r enwau a ddaeth i'r brig. Llongyfarchiadau gwresog i bawb.

**Meim Cân Bop Gymraeg (AAA) dan 25 Oed**
2ail Mabli Mai Davies
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd

**Unawd neu Ddeuawd Aelodau Hyn yr Urdd**
2ail Guto Dafydd Jones
Aelwyd Dyffryn Clwyd

**Unawd 19-25 oed**
1af Dafydd Jones
2ail Dafydd Allen

Llongyfarchiadau mawr iawn i Dafydd Jones a Dafydd Allen y mae'r ddau wedi cael cynnig o fynd i America i ganu mewn côr arbennig yr Urdd.

Dafydd Allen
"Edrychaf ymlaen yn fawr i gael teithio i America hefo ffrindiau eraill sydd hefyd wedi bod yn ffodus o gael y cyfle i fynd i Alabama trwy gystadlu yn yr Eisteddfod T"

Dafydd Jones
"Dwi wrth fy modd ac yn ddiolchgar iawn i'r Urdd am y cyfle anhygoel yma i deithio i'r Amerig eleni neu flwyddyn nesa, pryd bynnag y bydd canllawiau Covid yn caniatau."

**Celf 3D Bl.3 ac iau**
1af Megan Eira Jones
Ysgol Twm o'r Nant

**Tynnu Llun 2D Bl3 ac iau**
2ail Ifan Anthony Wood
Ysgol Twm o'r Nant

**Creu Fideo ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol**
3ydd Ethni Glwys Davies
Ysgol Gynradd Pant Pastynog



**Golygydd Mis Hydref: Morgan Cordiner**

**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333

Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900

Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pöttinger

**Barddoniaeth 3ydd Boas Davies Ysgol Uwchradd Glan Clwyd**

## Fy Nghyfaill

Pan welais o gyntaf yn fwndel bach smwt,
Fe gerddodd yn araf wrth hogle ei gwt.
Wrth grynnu yn ofnus a'i lygid bach gwyn,
Mi agorais fy mreichiau yw wasgu yn dyn.

Wrth gryfhau a tyfu mae ei gwmni yn wych,
O hyd yn gwneud giamocs a dwyn preniau sych.
Ei egni sy'n ddi-ddiwedd, ac mae o'n chwim,
Ond hefyd yn disgyn i gysgu, mewn dim!

Yn warchodwr o fri pan ganwyd y gloch,
Mae'n rhedeg a neidio a cyfarth yn groch.
Yn aros am gîg pan mae Mam wrth y stôf,
Mae cael ei hoff fwyd yn un foment i'r cof.

Pan yn ffermio mae o'n chwarae'n ddel,
Ond weithiau gall redeg 'rol defaid am sbel,
Ai gynffon i lawr mae en trotian yn ôl,
Ond ni allaf ddwrdio fy ngyfaill bach ffol.

Rhaid rhoi yn ei gwt pan mae'n amser noswylio,
Ai adael lawr grisiau yn swnian a chrio,
Ond pan ddaeth y wawr nai allaf aros,
Does dim croeso tebyg i'r cariad mae'n ddangos.

# Cwis Pêl-droed

1. I ba glwb mae'r streiciwr Kieffer Moore yn chwarae?
2. Pa grŵp o gerddorion offerynnau pres sy'n dilyn gemau pêl-droed Cymru?
3. Sawl gêm enillodd Cymru yn y rowndiau rhagbrofol i gyrraedd Euro 2020?
4. Prif Ddinas pa wlad ydi Baku?
5. Sawl cap gafodd Rob Page i dîm Cymru?
6. Pa wlad enillodd yr Euros yn 2016?
7. Pa flwyddyn y enillodd Cymru yn erbyn Hwngari mewn gêm play-off Cwpan Rygbi'r byd sydd hyd heddiw'n cael ei adnabod fel un o'r goreuon.
8. Pwy oedd y chwaraewr hynaf erioed i chwarae i Gymru?
9. Prif sgoriwr Cymru yn ymgyrch cwpan byd 1994?
10. Mewn gêm hanesyddol yn erbyn yr Eidal yn 2002, pwy sgoriodd y gôl cyntaf?
11. Pa glwb o uwch gynghrair Lloegr berswadiodd Mark Hughes, rheolwr Cymru rhwng 1999-2004, i adael Cymru a'u rheoli hwy?
12. Pwy sydd wedi gwneud y mwyaf o ymddangosiadau dros dîm Cymru?

# Holi a sgwrs yng nghwmni Mattew

**Llongyfarchiadau mawr i Mathew Minshull o Henllan am ddod yn 3ydd yng Ngystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod T yr Urdd.**



**Llongyfarchiadau mawr ar ddod yn drydydd yn yr Eisteddfod T Yr Urdd.**

**Sut brofiad oedd cystadlu yn yr Eisteddfod eleni?**

Wel roedd eleni'n wahanol iawn i'r blynyddoedd diwethaf oherwydd roedd rhaid i ni gystadlu ar lein. Ar gyfer y Gystadleuaeth Dysgwyr, roedd rhaid i ni greu fideo i berswadio gynulleidfa ar unrhyw bwnc felly nes i ddewis y pwysigrwydd o gerddoriaeth Gymraeg. On i mor hapus pan nes i ddarganfod fy mod i yn y tri uchaf oherwydd roeddwn i yn teimlo fel bod y blynyddoedd o ddysgu'r iaith wedi dod i ben… ond roeddwn i wedi llwyddo! Roedd pawb yn Llangrannog ar ddiwrnod y seremoni mor gyfeillgar a chefnogol. Roedd yn awyrgylch gwych lle all pawb dathlu'r iaith Gymraeg.

**A'i dyma'r tro cyntaf i ti gystadlu?**

Hwn oedd fy nhro cyntaf yn cystadlu yn yr Eisteddfod erioed! Roedd yn siomedig na allwn i ddim profi'r teimlad o fod ar y maes ond dw i mor falch o fod wedi cyrraedd y tri uchaf enwedig gan mai hwn oedd tro cyntaf i mi gystadlu. Byswn i bendant yn cystadlu eto a dw i'n edrych ymlaen at fynd i'r eisteddfod mewn person pan fydd y cyfyngiadau'n llacio.

**Pam penderfynu dysgu'r Gymraeg?**

Y rheswm mwyaf oedd fy mod i eisiau siarad iaith fy ngwlad. Dw i wir yn credu dylai bob Cymro geisio defnyddio'r iaith oherwydd bod o'n bwysig i gadw ein diwylliant ni'n fyw. Pan nes i symud o Ddinbych i Henllan ar ddechrau'r ysgol uwchradd. Clywais i mwy o'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio a sylweddolais byswn i'n cael mwy o gyfleoedd os yn medru siarad Cymraeg, er enghraifft mwy o swyddi a dod i adnabod mwy o bobl yn y gymuned Gymreig.

**Wyt ti'n edrych ymlaen at fynd i'r brifysgol yn Fis medi? Beth wyt ti'n edrych ymlaen at wneud fwyaf?**


Ydw! Mae gen i gynnig diamod i astudio BA Cymraeg Ail Iaith yn Brifysgol Aberystwyth, a dw i'n edrych ymlaen at ddatblygu fy sgiliau iaith a chymdeithasu mwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Beth wyt ti'n gobeithio gwneud yn y dyfodol?**

Dw i'n meddwl dw i eisiau cael gyfra mewn polisi a chynllunio iaith. Dw isio diogelu a hyrwyddo, nid yn unig yn Gymraeg ond hefyd ieithoedd lleiafrifol ar draws y byd sydd mewn perygl. Fel rhywun sydd wrth fy modd gyda ieithoedd, dw i'n credu bod amrywiad ieithyddol yn rhan bwysig a naturiol o ddynoliaeth, ac mae'r ffaith ein bod ni yn ei golli mor ddinistriol. Dw i hefyd rili eisio ysbrydoli pobl eraill i ddysgu ac i ddefnyddio Gymraeg, yn enwedig pobl ifanc oherwydd nhw yw'r dyfodol.

**Beth sydd yn dy wneud di yn falch o fod yn Gymro?**

Mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi agor drws i ddiwylliant arall i mi a dw i'n teimlo'n falch iawn fy mod yn rhan o'r gymuned. Mae'r pobl yn hyfryd, mae'r iaith yn brydferth yn ogystal â golygfeydd sy'n anhygoel. Mae 'na ormod o resymau pam dw i'n caru Cymru a ni fyswn i ddim eisiau byw yn unrhywle arall… yn enwedig Lloegr!





# Ysgol Glan Clwyd

**Bl 11 a 13 yn gadael.** Yn ystod wythnos olaf hanner tymor yr haf, fe gafwyd dwy seremoni ar gyfer y disgyblion ym ml 11 a 13. Oherwydd cyfyngiadau covid 19 fe gafodd bl 13 eu seremoni y tu allan yn yr heulwen braf. Ni chafwyd y seremoni Cofnod Cyrhaeddiad traddodiadol yn y Gadeirlan ar gyfer bl 11 chwaith ac oherwydd y tywydd bu raid cael Seremoni bl 11 yn rhithiol yn eu dosbarthiadau gan glywed nifer o hansesion dosbarth ar hyd y 5 mlynedd, a chyfarchion iddynt gan nifer o staff sydd wedi bod hefo nhw dros y 5 mlynedd. Ar ddiwedd y seremoni rhithiol cafwyd cyfnod hefo'i gilydd yn yr Hafan yn cymdeithasu a ffarwelio.

Roedd disgyblion a myfyrwyr bl 11 a 13 eleni yn awyddus i blannu coeden wrth i'w cyfnod yn Ysgol Glan Clwyd ddod i ben. Plannwyd 2 goeden Criafolen, coeden yn symbol o ddoethineb a dewrder, yn warchodol ac yn amddiffyn y gymuned Geltaidd.

Llongyfarchiadau i Mabli Davies 9P a gafodd lwyddiant yn cystadlu yn Eisteddfod T yr Urdd dros hanner tymor. Bu'n cystadlu yn yr adran meim Cân Bop Gymraeg (AAA) dan 25 oed, a'r gan a ddewisiodd Mabli feimio iddi oedd Sebona Fi gan Yws Gwynedd. Daeth Mabil yn ail yn y gystadleuaeth. Da iawn ti! Hefyd, bu i'w brawd Boas Davies 7M cael 3ydd am ysgrifennu barddoniaeth yn yr adran gwaith cartref.

Llongyfarchiadau i Jared Roberts (bl 13) sydd wedi cael ei ddewis i chwarae i tîm Futsol dan 19 i Gymru.

Llongyfarchiadau mawr i ddwy o flwyddyn 13 sydd wedi ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Bangor.

Mae Gwenno Lois Williams wedi ennill dwy ysgoloriaeth - Gwobr yr Athro Gwyn Thomas sydd werth £2,000 ac Ysgoloriaeth Teilyngdod Bangor sydd werth £3,000.

Mae Llio Machno Williams wedi ennill Ysgoloriaeth Teilyngdod Bangor gwerth £2,000

Da iawn yn wir i'r ddwy ohonynt ar eu llwyddiant a phob dymuniad da iddynt yn y Brifysgol

Gwyddoniaeth: Mae criw o ddisgyblion bl.10 Bioleg triphlyg (Erin Baxter, Jake Chow, Gwenllian Emmett a Gwion Williams) wedi cyrraedd y rownd nesaf o'r 'Life Sciences Challenge 2021'. Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd sy'n cynnal y ddigwyddiad, ac mi fyddan nhw yn cystadlu ar-lein yn erbyn 6 ysgol arall dros Gymru mis Mehefin nesaf. Pob lwc iddynt!

Bu nifer o ddisgyblion bl 7 yn coginio a gwerthu cacennau i godi arian ar gyfer yr elusen WWF yn ddiweddar. Llwyddwyd i gasglu o gwmpas £40. Da iawn chi.



Mr Aled Williams (Pennaeth cynnydd bl 11 ) hefo Jack ac Amelia






Llongyfarchiadau i Megan Galeandro a Cadi Doran (bl 9) ar gael eu dewis i fynychu Academi Peldroed

Llongyfarchiadau i Miss Teleri Evans ar enedigaeth mab o'r enw Deio Gwyn.

Annwyl Ddarllenwyr

Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl, gwaddol sy'n parhau i gael ei dosbarthu mewn grantiau i bobl Cymru'n flynyddol. Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.




Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac erbyn 16 Gorffennaf fan bellaf. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir

Gwenan Creunant

Ffôn: 01970 612806 E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru



## Y Gornel Goginio

# Linguine corgimwch gyda tsili a tomato



**Cynhwysion**
200g o corgimwch amrwd
400g o Linguine
300g tomato bach
1 Courgette
1 Tsili coch
Hanner pupur
Hanner nionyn coch
3 clof o garlleg
Olew olewydd
Halen a pupur
Purée tomato

**Dull**
1. Torrwch y nionyn coch, pupur, tsili, a'r garlleg yn fan a'i ychwanegu i'r badell sy'n cynnwys yr olew olewydd.
2. Torrwch y courgette a'r tomato a'i ychwanegu i'r badell wedi i'r nionyn droi yn euraidd. Ychwanegwch hadau y tsili am fwy o sbeis.
3. Gadewch i'r holl gymysgedd goginio dros dymheredd canolig.
4. Tra bydd y cynhwysion yn coginio ychwanegwch ddŵr berw gyda pinsied o halen i'r sosban ac arllwys y linguine.
5. Ychwanegwch 1 llwy fwrdd o purée tomato i'r llysiau. Wedi i'r pasta a'r saws goginio am 10 munud arllwyswch 4 llwy fwrdd o'r dŵr i'r saws tomato.
6. Ychwanegwch y Corgimwch i'r saws nes eu bod yn troi o lwyd i binc gyda pinsied da o halen a phupur. Ychwanegwch y pasta i'r holl gymysgedd wedi i chi arllwyso yr holl ddŵr.
7. Cymysgwch y cyfan yn ofalus er mwyn galluogi i'r pasta gael ei orchuddio yn y saws.
8. Rydych nawr yn barod i weini!

# Paflofa mefus gyda hufen



**Cynhwysion**
4 gwyn wŷ
250 siwgr mân
1 llwy de o fanila
Ychydig o finiger
250ml o hufen dwbl
Llond llaw o fefus wedi torri yn hanner

1. Rhowch ychydig o finiger ar bapur cegin ac sychwch y fowlen gymysgu a'r chwisg cyn ei ddefnyddio.
2. Rhowch y 4 gwyn wŷ yn y fowlen a'i gymysgu yn araf am ychydig o funudau.
3. Cynyddwch cyflymder y cymysgwr trydan gan ychwanegu y siwgr (llwyed ar y tro) yna y fanila.
4. Cymyswgch nes bod y gymysgedd yn dal ei siap ar y chwisg a bod y siwgr wedi ei gymysgu yn gyfan gwbl.
5. Ar y papur memrwn arllwyswch y gymysgedd yn ofalus gyda llwy gan greu siap cylch. Cofiwch mae siap nyth rydych yn geisio ei greu.
6. Rhowch y paflofa yn y popty ar dymheredd o 130 $^{o}$c am 1 awr.
7. Unwaith y mae'r amser wedi dod i ben. Diffoddwch y popty ond gadewch y paflofa i oeri yn y popty.
8. Wedi i'r paflofa oeri a chaledu cymysgwch yr hufen a'i arllwyso i ganol nyth y pafalofa.
9. Addurnwch y cyfan gyda mefus fres.

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# Y Parch. Cynwil Williams

Mi roedd yna dristwch mawr yn ein tŷ ni ar Fai y Cyntaf, ac ar aelwydydd ar draws Cymru, wrth i'r newyddion ledu i ni golli'r Parch Cynwil Williams. Mae hi'n fraint bywyd cael siarad yma yn ei angladd, a hynny oherwydd y cyfeillgarwch clos a chynnes iawn fu rhyngom ni fel dau deulu ar hyd y blynyddoedd.

Mi rydw i a Mali a'r merched yn cydymdeimlo'n fawr efo chi Carol a'r teulu oll, ac hefyd yn teimlo'r golled i'r byw, am un a fu'n gyfaill triw ar hyd y blynyddoedd.

Un Gweinidog ges i rhwng 1965 a 2001 a Cynwil oedd hwnnw, yn Ninbych i ddechrau ac wedyn yng Nghaerdydd gan gwmpasu dwy ganrif wahanol erbyn hynny.

Wedi iddo ymddeol yn 2001 mi roedd o mor brysur ag erioed, yn ysgrifennu ac yn crwydro Cymru o un pen i'r llall i bregethu. Ond roedd o hefyd yn selog iawn yn ei gapel ei hun, tra medrai.

Mae o wedi bod yn ddylanwad mawr ar fy mywyd i, ac mi roedd o bob amser yn barod ei gyngor, ac mi roeddan ni'n ffrindia mawr o'r cychwyn.

Gan nad oes modd i lawer fod yn yr angladd, i dalu teyrnged bersonol, mae'n addas dyfynnu rhai ymadroddion a gafwyd ar y gwefannau cymdeithasol a dyma nhw - "dyn annwyl a charedig"; "gŵr bonheddig" "dyn hawddgar oedd bob amser yn ein cyfarch a gwên lydan"; "pregethwr eneiniedig"; "roeddwn yn meddwl y byd ohono"; "Yncl Cynwil oedd o i mi"; "bu'n llewyrch i'm llwybr".

A hyn gan Huw Edwards y BBC, a'i dad Hywel Teifi yn gyfaill da i Cynwil, "Gweinidog, pregethwr ac awdur nodedig, diolchwn am ei wasanaeth eithriadol a'i gyfeillgarwch diball".

Mi wnaeth hynny i mi sylweddoli ei fod o wedi cyffwrdd â bywydau ac wedi cael dylanwad mawr ar filoedd o bobl ar draws Cymru, a hynny yn enw'r Arglwydd Iesu Grist. Roedd o wedi bedyddio a phriodi llawer ohonyn nhw ac nid dim ond yn ei eglwysi ei hun, a hynny'n aml oherwydd cyfeillgarwch clos.

Pan ges i wybod yn ddiweddar ei fod yn symud i gartref gofal yn Y Rhyl mi ddaeth llu o atgofion yn ôl am gyfnod Dinbych a Dyffryn Clwyd ac mi rydwi'n siwr fod hynny'n wir hefyd am Cynwil ei hun.

Mynd yn ôl oedd o i'r dref lle bu'n yrrwr bysus efo cwmni Crosville yn ei ddyddiau coleg. Un mentrus oedd Cynwil, ac fel y gwyddoch trefnodd dripiau lu ar draws Cymru ac ar draws y byd gan fynnu gyrru'r bws bob tro – wel yng Nghymru o leiaf!

Yn ystod y cyfnod yma daeth i nabod Dyffryn Clwyd yn dda, ac fel myfyriwr Diwinyddol byddai'n cael gwahoddiad i bregethu yng nghapeli niferus y dyffryn. Mi ddaeth pobl Dyffryn Clwyd i'w nabod yntau, a rhyfeddu at ei ddawn yn y pulpud a dotio ar ei bersonoliaeth gynnes.

Dim rhyfedd felly iddo gael gwahoddiad i ddod yn Weinidog i Ddinbych ym 1965.

Bachgen 11oed oeddwn i ar y pryd, felly argraffiadau personol y llanc ifanc sydd gen i heddiw gan mwyaf. Yr atgofion am y cyfnod hynod o hapus hwnnw, y deng mlynedd y bu'n Weinidog ar y Capel Mawr a hefyd y Capel Bach yn y dref, sef Capel Seion.

Fy nhad oedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Bugeiliol yn Ninbych bryd hynny, a fo oedd yn anfon y gwahoddiad ac yn ceisio denu Cynwil o Gapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin.

Un diwrnod mi siarsiwyd Bryn fy mrawd, oedd yn ddeg oed, a minnau i fyhafio, peidio gadael y bwrdd yn rhy fuan, a bod ar ein gorau, gan fod rhywun pwysig iawn yn dod i'n tŷ ni i gael te; sef Gweinidog newydd y Capel Mawr a'i deulu bach.

Fel plant roedden ni'n meddwl bryd hynny bod Y Capel Mawr i fod i gael Gweinidog Mawr hefyd. Mi roedd y cyn Weinidog Y Parch J. H. Griffith oedd yn ymddeol, yn ddyn mawr cydnerth, a dyma Weinidog mawr iawn eto yn cerdded i mewn drwy ddrws ffrynt ein tŷ ni y diwrnod hwnnw. Roedd o wedi bod yn chwarae rygbi hefyd i safon uchel, camp oedd yn tyfu yn y Gogledd ar y pryd – arwr yn wir i fachgen 11 oed!

Wrth fynd yn hŷn mi ddes i sylweddoli bod hon yn dipyn o her i Weinidog ifanc yn y 60au, gyda dros 600 o aelodau yn y ddau gapel.

Roedd Gwasg Gee yn dal i ffynnu yn y dre, ac yn cynhyrchu papur newydd Y Faner bob wythnos, ac roedd rhai o lenorion amlwg y genedl wedi symud i Ddinbych i gynhyrchu'r papur ac yn aelodau - y Dr Kate Roberts a'r prifeirdd Gwilym R Jones a Mathonwy Hughes. Dyna i chi restr i wneud i rywun chwysu!

Ond mi ddes i ddeall yn fuan iawn mai'r sgwrsio ar y stryd yn Ninbych, neu 'Dimbech' yn nhafodiaith Dyffryn Clwyd, oedd bod ganddon ni Weinidog poblogaidd iawn gan bawb yn ei gapeli ac ym mhlith trigolion y dref a hynny er gwaethaf ei acen Ddeheuol ddiarth. Mi roedd o'n gallu bod yn gadarn hefyd os oedd angen amddiffyn gwerthoedd oedd yn bwysig iddo.

Dysgais bryd hynny fod yna fawredd gwahanol yn perthyn i Cynwil, a'i bregethu grymus, ei ffydd gadarn a'i bersonoliaeth hawddgar yn denu pobl ato. Oedd mi roedd pobl Dyffryn Clwyd wedi closio ato a'i deulu bach, yn eu ffordd unigryw eu hunain, oedd yn gyfuniad o swildod a chynhesrwydd mawr.

Roedd o'n dipyn o dynnwr coes hefyd. Roedd pob teulu a'i sêt ei hun yn y capel bryd hynny, a phenderfynodd fy nhad a mam ei bod hi'n amser cael cwsin ar y sêt, a'r Sul canlynol roedd 'na gerdyn bach yno, "Gwae y rhai esmwyth yn Seion". Fe gymrodd dipyn o amser i ni dalu'r pwyth yn ôl, ond pan gawsoch chi gar newydd, ac roedd Cynwil yn hoff o'i geir, dyma roi'r un adnod ar y "windscreen".

Roedd Dinbych a Dyffryn Clwyd yn ddieithr iawn i chi Carol yn 1965 ond fe ddaethoch i wneud ffrindiau da, ffrindiau oes yn wir, gan fwrw gwreiddiau a gweithio i gwmni o gyfreithwyr lleol, a cael gofal da i'r plant cyn i chi'r merched ddechrau mynd i'r ysgol. Roedd yna ysgol gynradd Gymraeg wedi agor yn y dre yn 1960, ar ôl ymdrech galed i'w sefydlu. Mewn cytiau simsan ac oer yr oedden ni i ddechrau, ond wedi cryn berswâd ar rai o'r blaenoriaid a rhai addasiadau, mi gafodd yr ysgol loches yn festri helaeth y Capel Mawr.

Meddai Cynwil mewn llythyr diweddarach at fy nhad: "Rwy'n cofio gorfod galw yn y capel yn ystod y dydd weithiau, a'r festri'n fyw o blant, ac mi roeddan nhw a'u hathrawon yn gapelwyr bob dydd ac eithrio'r Sadwrn!" - Mi roedd hi'n teimlo felly hefyd a'r brydiau. Doedd yna fawr ddim iard i ni chwarau, a ninnau'n dringo'r waliau i'r lôn ac i erddi'r cymdogion yn rhy aml yn ystod yr egwyl!

Symudodd yr ysgol yn 1968 i adeilad newydd sbon yng ngwaelod y dref gyda chaeau chwarae eang a

minnau wedi hen fynd i'r ysgol uwchradd erbyn hynny. Roedd yr adeilad newydd yn agos i'ch cartref ac meddai Cynwil yn yr un llythyr at fy nhad, "Cerddais fy nhair merch yno a mwynhau'r gymdeithas ar y ffordd a'r tu allan i'r ysgol, a thrigolion Dolwen yn chwifio llaw."

Cymdeithas glos felly oedd yn Ninbych yn y 60au a dechrau'r 70au, ond er bod y mwyafrif yn siarad Cymraeg roedd yr iaith yn cilio ar wefusau'r plant a'r bobl ifanc, fy nghyfoedion. Roedd yr ysgol Gymraeg yn gymharol newydd o hyd ac yn dal i ennill ei phlwyf. Mi roedd eich cael chi'ch tair yn ddisgyblion yno yn hwb go dda i'r ysgol ac yn arwydd hefyd o gadernid Cymreictod y ddau ohonoch fel rhieni.

Mi roedd fy Nhad fel Cynwil yn dod o'r wlad ac o gefndir amaethyddol yn Sir Fôn ac mi roedd yna lawer yn gyffredin rhyngddyn nhw, yn enwedig eu hoffter a'u hadnabyddiaeth o bobl. Byddai Cynwil yn galw acw'n aml i holi am hwn ar llall, ond buan y daeth yn feistr ar adnabod ei gynulleidfa niferus. Byddai'r ddau yn tueddu i siarad yn ddi-baid, ac un tro pan alwodd, mi roedd fy Nhad yn papuro wal y parlwr. Cynigiodd Cynwil ddal y papur blodeuog i'w helpu, a mam yn clywed y sgwrsio o'r cefn.

Mi aeth hi i mewn i'r parlwr i gynnig paned iddyn nhw, a dweud mewn braw, "Mi rydach chi'ch dau, efo'r holl siarad 'ma, wedi rhoi'r papur â'i ben i lawr, mae'r blodau at i lawr yn lle at i fyny". Diolch byth mi roedd yna amser i droi'r papur, gan fod y past heb galedu eto, a mawr fu'r chwerthin a'r siarad wedyn dros baned.

Gweinidog yn union fel yna oedd Cynwil gydol ei oes, yn mwynhau cwmni ac yn awyddus i helpu pawb. Gweinidog yr Ail filltir, y Drydedd a'r Bedwaredd oedd o. Doedd dim yn ormod iddo ei wneud i chi, a byddai'n mynd allan o'i ffordd i helpu eraill, a hynny ar ei draul ei hun yn aml.

A minnau yng nghanol fy arddegau erbyn hyn, buan y sylweddolais fod ein Gweinidog yn cymryd diddordeb mawr ynddo ni'r bobl ifanc yn arbennig. Roedd yna fanteision ac anfanteision i hyn – doedd dim modd osgoi pan fyddai'n gofyn i ni gymryd rhan yn y gwasanaeth er enghraifft, ac mi roedd yna ddosbarth derbyn ar y gorwel. Roeddwn i a llu o bobl ifanc eraill yn dechrau holi a stilio, a hefyd yn amau rhai o'r pethau yr oedd y to hŷn am i ni eu credu.

Y 60au oedd hi wedi'r cwbl, gyda newidiadau mawr ar droed yn y gymdeithas ehangach. Roedd ein Gweinidog yn ymwybodol iawn o hyn, ac nid damwain oedd y ffaith mai'r annwyl Meurig Voyle oedd ein hathro Ysgol Sul. Roedd Mr Voyle wedi symud o Landdarog, Sir Gaerfyrddin, i fod yn Ysgrifennydd Undeb Amaethwyr Cymru yr FUW yn Sir Ddinbych ac yn gyn-filwr oedd wedi gweld erchyllderau'r Ail Ryfel Byd. Roedd hefyd yn ŵr hoffus iawn ac roedd ei ddosbarth yn meddwl y byd ohono.

Doedd hynny ddim yn ein rhwystro rhag cael ambell i drafodaeth danbaid, nes bod dosbarthiadau'r oedolion yn tawelu mewn syndod, ac yn ceisio clustfeinio ar beth oedd yn cael ei drafod, a hynny gan blant llawer ohonyn nhw!

Roedd y dosbarth derbyn ei hun yn dipyn o her hefyd a'n Gweinidog yn paratoi'n fanwl ar ein cyfer, ac am i ni ddysgu rhai pethau ar y cof. Roedd yn agored i gael ei herio ond roedd ganddo ateb pwyllog ac ystyriol i bob cwestiwn. Roedd ei ddylanwad yn fawr arnom, criw digon bywiog ar adegau. Aeth nifer ohonon ni'n fechgyn a merched ymlaen dros y blynyddoedd i fod yn flaenoriaid ac i weithio yn ein heglwysi lleol ar draws Cymru.

Mi roedd o wedi dangos y ffordd a cherdded y llwybr efo ni, ond gwyddai'n dda ei bod hi i fyny i ni wedyn pa lwybr y byddem yn ei ddilyn mewn bywyd. Ac mi roedd isio dipyn o help yr Ysbryd Glân ar rai ohonon ni!

Roedd pobl Dinbych yn siomedig iawn o'ch colli y 5 ohonoch chi, a gwn eich bod chithau wedi pendroni'n hir fel teulu cyn symud. Hynny oherwydd yr holl ffrindiau agos oedd ganddoch chi yn y dref ac yn Nyffryn Clwyd

Buoch chi Carol yn gofalu'n dyner a chariadus amdano yn ystod ei gyfnodau o waeledd, a'r merched a'u teuluoedd yn gefn cadarn i chi. Mi wn yn iawn o'r sgyrsiau gefais i efo fo ei fod yntau yn hynod werthfawrogol o'ch cariad a'ch gofal mawr ohono yn ei wendid, a'r un modd chithau Catrin, Siriol a Lisa.

**Rhan o deyrnged a dalwyd gan John Rowlands ar ddiwrnod yr angladd yng Nghwrt y Cadno**


BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg
yn y swyddfa neu gartref.

sir ddinbych denbighshire County Council
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych


## Atebion Mehefin 2021

**Ar Draws :**
7. Arfbais
8. Ehediad
10. Tanysgrifio
11. Iâl
12. Cartref
15. Draenen
16. Traul
18. Neb
20. Dyddio
22. Wystrys
24. Rwmaneg
27. Pen
28. Digamsyniol
30. Dilynwr
31. Difrodi

**Lawr :**
1. Y Faner
2. Pais
3. Ysgrifen
4. Aeddfed
5. Memorandwm
6. Miliwnydd
7. Astec
9. Dylunio
13. Aur
14. Rala Rwdins
16. Trwmped
17. Absenoli
19. Barometr
21. I be
23. Segura
25. Neilon
26. Golchi
29. Ysfa

I

## CROESAIR GORFFENNAF 2021



**Ar Draws :**
8. (a 25 i lawr) Mudiad i fenywod sy'n codi'n gynnar? (6,1,4)
9. Llinell ar fap tywydd
10. Swnt
11. Gwlad Messi a Maradona
12. Ionawr 1af yw'r diwrnod i wneud rhain fel arfer
14. Rhyddhau swigod o nwy mewn hylif
15. Newid mewn trywydd ee mewn busnes
19. Gofalus o'r geiniog 21. Bod â'r llaw uchaf
24. I'r hîl hon yr ydym ni'n perthyn
26. Grŵp o bobl
27. ee Plaza, Astra neu Odeon
28. Ar adegau

**I Lawr :**
1. Fan hyn mae drama newydd S4C wedi ei lleoli
2. Mynydd yn Eryri
3. Man claddu
4. Tymor ...., amser prysur i ffermwyr
5. Gormod i'w gyfrif
6. Gêm tebyg i bêl-fâs
7. Carw yng Nghanada
13. Yn hwyr iawn, ar yr ..... awr ar ddeg
16. Peryglus
17. Marwnad
18. Cofnod o ddigwyddiadau
20. Unig ac anodd ei gyrraedd
22. Rhes o beli bach gloyw ar linyn
23. Gofalu am glaf, ee mewn ysbyty
25. g 8 ar draws

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Yn araf deg mae pethau'n gwella yn ein gwlad ac mae aelodau'r gymdeithas yn crwydro'r cefn gwlad unwaith eto, yn mwynhau'r awyr iach a gwerthfawrogi blodau gwyllt y gwanwyn ar ôl gorfod cadw draw am gymaint o amser. Dw i'n falch o ddweud bod llawer o ddysgwyr yn cerdded efo ni ac yn cael cyfle ardderchog i ddatblygu eu Cymraeg wrth sgwrsio – y ffordd naturiol o ddatblygu iaith newydd. Dyma brofiad un sydd yn cerdded efo ni yn gyson.

**Dysgu'r iaith gyda Chymdeithas Edward Llwyd.**

gan Shelagh Fishlock

Dechreuais i ddysgu Cymraeg mewn dosbarth Coleg Gwent yn 2018. Yn ogystal â dosbarthiadau, roedd athrawon y Coleg yn trefnu gwahanol weithgareddau i ddysgwyr er mwyn cwrdd â Chymry Cymraeg yr ardal. Y tro cyntaf i fi ymuno oedd ar daith gerdded yng Ngwlypdiroedd Casnewydd a threfnwyd gan y Coleg a Chymdeithas Edward Llwyd.

Prin iawn oedd fy Nghymraeg ar y pryd, ond cwrddais i â sawl dysgwr arall, a hefyd aelodau CELl. Ces i fy annog i ddal ati gyda'r iaith. Yn ystod y daith o gwmpas y Gwlypdiroedd, esboniodd yr arweinydd (y diweddar Gareth Beynon) y byddai daith arall y Gymdeithas yna ym mis Tachwedd, amser "murmurations" y drudwyod. A dyma fi'n chwilio am fanylion ar wefan CELl, wefan cyfrwng Cymraeg wrth gwrs. Wedi darllen geiriau fel "dringo" a "serth," es i â'r rhestr i fy nhiwtor-roeddwn i'n edrych ar restr teithiau'r Gogledd-orllewin! Wedyn, wrth edrych ar y rhestr gywir doedd dim sôn am 'Wlypdiroedd Casnewydd.' Roeddwn ar goll nes i mi weld y geiriau 'Crwydro Gwastadeddau Gwent'. Ond er gwaetha'r heriau ieithyddol, ymunais i â'r daith - daith a fyddai'n cychwyn siwrne arall i ddarganfod mwy am natur, hanes a diwylliant Cymru, ffrindiau newydd ac iaith y nefoedd.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i fi gael sgwrs gydag aelodau o'r grŵp, ond roedd pawb yn amyneddgar, yn ailadrodd cwestiynau, yn esbonio pethau ac yn gwneud eu gorau glas i ddeall fy mrawddegau lletchwith. Ar ddiwedd bob taith ro'n i wedi blino'n lân - dim achos y cerdded, ond achos diwrnod hir o Gymraeg. Yn ffodus, erbyn hyn, er nad ydw i'n rhugl, dw i'n gallu mwynhau sgwrsio, a deall y rhan fwyaf o esboniadau'r arweinydd (Hyd yn oed rhai ag acen Cwm Tawe!)

Felly, sut mae'r teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn help i ddysgwr (neu "siaradwr newydd")?

- Byddech chi gyda grŵp sydd â diddordeb cyffredin – cerdded, byd natur, hanes Cymru.
- Byddech chi'n treulio diwrnod cyfan mewn amgylchedd hollol Cymraeg, ble mae siarad yn Saesneg yn swnio'n annaturiol.
- Dim "Cymraeg y dosbarth" sy'n cael ei defnyddio: bydd pobl yn y grŵp o bob ardal o Gymru, gydag acennau gwahanol, geiriau tafodieithol a gwahanol ffasiynau o ddefnyddio'r iaith. Mae hynny'n ddryslyd ar y dechrau, ond yn ddefnyddiol iawn i werthfawrogi amrywiaeth yr iaith.
- Bydd y profiad hwn yn cynyddu'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd eraill y tu allan i'r dosbarth.
- Mae e'n jyst lot o hwyl!

Da ynte!, mae Shelagh wedi croesi'r bont o fod yn ddysg wraig i fod yn un o'n siaradwyr newydd hyderus. Mae angen llawer mwy fel hi os ydym i fod i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Fel cymdeithas sydd yn cerdded mewn tair rhan dros Gymru bob dydd Sadwrn mae cyfle gwych i ddatblygu'r iaith a gwneud ffrindiau newydd. Ewch at ein gwefan i lawr lwytho ffurflen aelodaeth - https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/aelodaeth/ . Mae ein rhaglenni teithiau maes i'w gael ar y wefan hefyd a bydd eich aelodaeth yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022. Gall bod fel cael Sadwrn Siarad bob wythnos am ddim ond £20!

Dewch i fwynhau a chadwch eich Cymraeg yn fyw!

Rob Evans – Ysgrifennydd Aelodaeth

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E: rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans
SAIF National Independent Funeral Directors

SJ Cyfreithwyr SwayneJohnson Solicitors

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar **01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com
cyfraith@swaynejohnson.com

# Ysgol Twm o'r Nant

Mae'r flwyddyn ysgol yn tynnu at ei therfyn unwaith eto, a phawb yn edrych ymlaen yn fawr at gael seibiant dros wyliau yr haf. Gyda chalon drom, rydym yn ffarwelio gyda 4 aelod o staff gwerthfawr iawn yr ysgol. Mae Mrs Bethan Tomos, arweinydd yr uned dan 5 yn ymddeol. Mae hi wedi bod yn athrawes arbennig a gweithgar yn Nhwm o'r Nant ers 20 mlynedd. Hi fyddai un o'r gwynebau cyntaf y byddai pob plentyn yn ei weld wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae ei gwaith ddi-flino o setlo y plant yn yr ysgol wedi bod yn werthfawr iawn i sawl cenhedlaeth.

Mae ein prifathro Mr Darren Booth-Taylor yn ein gadael hefyd ac yn symud ymlaen i swydd hefo corfforaeth arolygu ysgolion Estyn. Er mai 5 mlynedd y mae o wedi bod hefo ni yn Nhwm o'r Nant, mae ei waith caled wedi symud yr ysgol yn ei blaen cymaint, ac wedi ein harwain i ragoriaeth yn ein arolygad diwethaf.

Un arall a fydd yn gadael bwlch mawr ar ei hôl fydd Mrs Rhian Thomas, arweinydd yr uned dan 7. Er mai ychydig dros 3 blynedd mae hi wedi bod yn aelod o staff yr ysgol, mae ei syniadau a'i brwdfrydedd wedi bod yn arbennig ac rydym yn dymuno yn dda iddi yn ei swydd newydd fel pennaeth Ysgolion Ffederal Bro Elwern a Betws Gwerfyl Goch.

Er mai dros gyfnod mamolaeth blwyddyn yn unig mae Miss Lois Lighfoot wedi bod hefo ni yn athrawes yn yr Uned dan 7, mae'r plant wedi mwynhau ei chwmni yn fawr dros y flwyddyn. Rydym yn diolch iddi am ei gwaith caled ac yn dymuno yn dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Pant Pastynog.

Ac yn olaf, ond nid y lleiaf, rydym yn dymuno yn dda i bob un o blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni i fynd am yr ysgol uwchradd. Er nad yw'r flwyddyn a hanner diwethaf yma wedi bod yn un hawdd a sawl profiad o fod yn blant hynaf yr ysgol wedi gorfod cael ei golli, mae pob un wedi gweithio yn galed ac wedi mwynhau eu cyfnod yma yn Nhwm o'r Nant, ac rydym yn sicr yn falch iawn o bob un. Pob hwyl i chi yn eich ysgolion uwchradd a pheidiwch a bod yn ddiarth. Braf yw gweld cyn-ddisgyblion yn galw draw i ddweud helo bob amser.

Dyma ychydig o atgofion melys y staff ac o dan newyddion yr Uned dan 11 mae rhai o blant blwyddyn 6 wedi ysgrifennu am eu profiadau lu yn Nhwm o'r Nant cyn ein gadael. Cofiwch estyn am y bocs tishws cyn eu darllen!!

HUW VAUGHAN JONES

Arlunydd,Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.

Cysylltwch â Huw ar

01745 812184

# Atgofion Mrs Bethan Tomos – Arweinydd yr Uned Dan 5

Bob tro y bydda i'n cael fy mhen-blwydd bydd plentyn yn siwr o ofyn

"Faint ydi eich oed chi Mrs Tomos?"

Ac mi fydda i'n ateb bob tro

"R'un oed a bawd fy nhroed a chydig hŷn na nannedd!"

Mae'r plant yn dod i'r casgliad mod i'n 21ain ac mae hynny yn fy siwtio i yn iawn! Ond mae'n rhaid wynebu ffeithiau – rydw i'n bell o fod yn 21ain ac wedi penderfynu fod hi'n amser i mi ymddeol! Os ydi'r cyfnod clo 'ma wedi dysgu unrhyw beth i mi, mae o wedi dysgu pwysigrwydd edrych ar ôl yr hunan ac arafu bywyd ac i werthfawrogi'r pethau bychain – cwmni teulu a ffrindiau, awyr iach ac ymlacio.

Rydw i'n rhan o deulu Twm ers ugain mlynedd bellach, cyn hynny mi fues i'n dysgu yn Ysgol Talhaiarn (efo Mrs Roberts, Felin yn gogyddes, sef mam Mrs Meira Jones. Oddi yno daeth Mr Taylor i Twm ac oddi yno hefyd mae Mrs Sian Jones yn dod i arwain yr Uned dan 5 ar fy ôl i – byd bach), Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol Plas Coch, Wrecsam. Roeddwn i'n awyddus i gael swydd rhan amser ar ôl genedigaeth Beca, felly ar gais y diweddar Mrs Gwyneth Ann Roberts cynigiais am swydd bob bore yn cyd-weithio efo hi yn dysgu Blwyddyn 6. Roedd 'na griw mawr, bywiog a thalentog yn y flwyddyn honno, ac un o'r uchafbwyntiau i mi oedd hyfforddi tîm Cwis Llyfrau ddaeth i'r brig yn genedlaethol yn 2002.

Diolch i Mrs Mair Roberts am y lluniau.





Ar ddiwedd y flwyddyn honno, daeth swydd yn yr Uned dan 5 a minnau erioed wedi dysgu plant mor ifanc o'r blaen! Rydw i'n cofio treulio oriau yn paratoi taflenni gwaith hyfryd – dim ond i'r plant eu cwblhau mewn eiliadau! Fe ddes i ddysgu'n fuan mai dim trwy daflenni gwaith mae plant ifanc yn dysgu ond trwy brofiadau go iawn a chyd-chwarae a sgwrsio. Diolch i Mrs Alys Owen a'i thîm am eu hamynedd efo fi yn ystod yr wythnosau cyntaf! Erbyn hyn, credaf mai dyma'r oedran gorau yn y byd i'w dysgu oherwydd bod y plantos bach mor awyddus i amsugno gwybodaeth a phlesio eu hathrawes!

Daliais ymlaen i weithio'n rhan amser am sbel cyn dod yn Arweinydd yr Uned dan 5 yn 2010 ac mae'n rhaid i mi ddweud bod y blynyddoedd wedi hedfan! Mae tîm yr Uned yn anhygoel ac mae hi wedi bod yn bleser cael cyd-weithio efo pawb, yn staff presennol a'r rhai sydd wedi gadael. Rydym yn cael llawer o hwyl yng nghwmni ein gilydd. Dyma rai ohonom yn mwynhau trip ar gwch cyflym ar y Fenai rhyw ddwy flynedd yn ôl!



Mae llawer iawn o hwyl i'w gael yng nghwmni'r plant hefyd, dyma ambell hanesyn sy'n dod i'r côf.

- Un tro, cafodd dau o fechgyn bach y Dosbarth Meithrin eu martsio i lawr i'r Uned yn wlyb at eu crwyn! Roedd y ddau wedi bod yn chwarae Sam Tân yn y toiledau ac yn trio rhoi peipen ddŵr ar y tap!
- Dro arall, criw o blant yn fwd o'u corryn i'w sawdl ar ôl bod yn gwneud llithren fwd yn y dosbarth tu allan efo Mrs Meira! Wrth gwrs roedd Meira'n fwd i gyd hefyd ar ôl bod yn ymuno yn yr hwyl!
- Mae'r cyngherddau Nadolig yn aros yn y côf – un yn enwedig pan gafodd Mair ddamwain pi pi ar ôl cyrraedd y stabl! Ei dŵr wedi torri go iawn cyn genedigaeth y Baban Iesu!

Mae'r atgofion yn llifo'n ôl! Mae hi'n anodd ffarwelio â phob criw o blant sy'n gadael yr Uned yn flynyddol ond mae'n braf cael dilyn eu cynnydd wrth iddyn nhw symud i fyny'r ysgol. Bydd dagrau'n agos bob blwyddyn pan fyddwn ni'n cynnal ein tê yn yr ardd i ffarwelio ac i ddathlu eu llwyddiannau yn yr Uned dan 5. Mae'n siwr bydd y dagrau yn llifo eleni ond hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r cannoedd o blant sydd wedi eistedd wrth fy nhraed (yn llythrennol) am eich cwmni ac i chi fel rhieni am eich cefnogaeth. Mae hi wedi bod yn fraint cael bod yn aelod o deulu Twm a dymunaf yn dda i'r ysgol i'r dyfodol.

Fy nghywion bach olaf!




Cynghorydd

cyngor sir ddinbych

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

S: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk


# Atofion Mrs Rhian Thomas - Arweinydd Uned dan 7

Ar ddiwedd tair blynedd a hanner o weithio yn Ysgol Twm o'r Nant does gen i ond atgofion melys. O'r eiliad y cerddais i mewn i'r Ysgol ar ddiwrnod fy nghyfweliad gwerthfawrogais y croeso cynnes ges i, ac felly fuodd ar hyd fy amser yn gweithio yno. Mae bod yn aelod o 'Deulu Twm' wedi bod yn deimlad arbennig ac yn un y byddaf yn hiraethu ar ei ôl yn bendant. Mae dechrau swydd newydd yn deimlad reit annifyr, ddim syniad ble mae pethau yn cadw, dim syniad o'r drefn, ddim yn adnabod neb! Mae'n profi pa mor gartrefol yw'r ysgol pan oeddwn ar fy ail ddiwrnod yno ac yn teimlo fy mod wedi bod yno ers blynyddoedd!

Wrth ddechrau ar fy swydd fel Arweinydd Uned dan 7 ym mis Ionawr 2018 roeddwn yn llawn syniadau, yn llawn brwdfrydedd a sylweddolais reit sydyn pa mor lwcus oeddwn o fy nghydweithwyr, a oedd mor amyneddgar i wrando a dod ar y daith gyda mi. Yn rhyfedd iawn mae fy syniadau yn tueddu i ddod imi yng nghanol y nos, a finnau methu aros i'w rhannu, felly roedd rhaid gyrru neges ben bore! Er eu hamynedd, dwi'n siŵr eu bod wedi cael llond bol o gael neges 'whatsapp' cyson gen i yn dweud 'Mae gen i syniad......' neu 'Yn fis Medi beth am i ni....!'

Un o'r syniadau hyn oedd cynnal sioe haf i gydfynd a'n thema Môr Ladron. A gan i fod hi yn haf beth am ei chynnal tu allan yn yr amphitheatre! Roedd rhaid ymarfer bob dydd wrth gwrs, ac felly fuom ni yn llusgo'r llong enfawr, y 'môr', yr 'ynys' a hwffio'r piano o'r neuadd fach yr holl ffordd i'r theatr tu allan yn ddyddiol! Roedd 'na chwerthin, llond trol o hwyl a dagrau (gan i'r piano rowlio dros droed un ohonom wrth ei symud un diwrnod!). Wedi hir ymarfer mi ddoth diwrnod y perfformiad a hithau yn un o ddiwrnodau poethaf y flwyddyn a hefyd un o'r rhai mwyaf gwyntog! Mae'r diolch yn fawr i Anti Mair am fy nghysgodi rhag yr haul gydag ymbarél uwch fy mhen i gyfeilio gydag un llaw, a dal fy nghopïau piano gyda'r llall oherwydd y gwynt! Ond hefyd i holl staff yr Uned a weithiodd mor galed yn ystod y cyfnod hwnnw heb gwyno na dweud wrthai am gadw fy syniadau i fi fy hun y tro nesaf, er dwi'n siŵr fod hynny wedi croesi eu meddyliau sawl gwaith! Gwaith tîm ar ei orau.

Mae 'Teulu Twm' wrth gwrs yn cynnwys ein plant a'u rhieni hefyd. Mae plant arbennig iawn yn Twm o'r Nant ac rwyf wedi bod mor lwcus yn cael bod yn rhan o'u haddysg nhw yn y cyfnod sylfaen a hefyd yn cael bod yng nghwmni'r rhai hŷn wrth eu hyfforddi ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd.

Mae llawer yn dweud na fuasent yn gallu gwneud fy swydd i, bod yng nghwmni 30 o blant mewn dosbarth bob dydd NAAA!!! Ond gyda llaw ar fy nghalon, er mor anodd a blinedig yw hi ar brydiau, mae gweithio mewn ysgol yn un o'r swyddi gorau yn y byd. Ac mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn uchafbwynt o fy ngyrfa hyd yn hyn, ac mae'r diolch am hyn yn bendant i deulu a chymuned Ysgol Twm o'r Nant.

# Atgofion Mr Darren Booth-Taylor – Pennaeth

Mae hi wedi bod yn fraint bod yn bennaeth ar Ysgol Twm o'r Nant dros y 5 mlynedd d'wethaf. I gychwyn hoffwn ddiolch yn fawr i'r holl ddisgyblion- maent yn griw arbennig ac rydym wedi bod yn hynod o ddiolchgar iddyn nhw am fod mor barchus, cwrtais a gweithgar. Y tu ôl i'r drefn a systemau cadarn o fewn y dosbarthiadau mae'r athrawon a staff sydd yn gweithio yn hynod o galed. O'r holl ysgolion rwyf wedi gweithio ynddyn nhw dros y blynyddoedd, gallaf ddweud mai staff Twm ydi'r gorau. Nid yn unig y gwaith caled a'r gofal i bob disgybl ond hefyd yr hwyl sydd i'w gael ymysg y staff. Mae'r ffaith bod y staff yn griw hapus yn adlewyrchu ymhob elfen o fywyd yr ysgol ac mae hyn i'w weld yn hapusrwydd y plant wrth iddyn nhw ddod i'r ysgol bob dydd.

Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i'r rhieni sydd wedi bod yn hynod o gefnogol i fi wrth imi symud yr ysgol yn ei flaen. Mae'r partneriaeth arbennig sydd yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref wedi bod yn elfennol i sicrhau llwyddiant i bob un plentyn.

Ac yn olaf, hoffwn estyn diolch mawr iawn i'r llywodraethwyr ac yn benodol i Mrs Alwena Tomos. Mae Alwena wedi bod yn gadeirydd y llywodraethwyr am y 5 mlynedd cyfan gyda fi fel pennaeth ac i ddweud y gwir, mae'n siwr y buasai hi yn medru ysgrifennu llyfr erbyn hyn o'i phrofiadau. Mae cael cadeirydd a criw o lywodraethwyr cefnogol a gweithgar yn hanfodol i lwyddiant ysgol ac mi rydw i wedi bod yn hynod o ffodus yma yn Twm.

Atgofion melys iawn sydd gennyf o'r ysgol arbennig yma a dw i wir yn gobeithio pob llwyddiant i bawb ynddi hi yn y dyfodol. Byddaf yn siwr o drio rhoi gair da amdani pan rodda Estyn cnoc ar y drws yn y dyfodol!!!!!!

**Uned Dan 5**


Dyma ni wedi cyrraedd yr hanner tymor olaf yn yr ysgol cyn gwyliau'r Haf a diwedd blwyddyn ysgol sydd wedi bod yn un digon heriol.  Ein thema am yr hanner tymor yma ydi Hwyl ar lan y môr ac er nad oes cyfle wedi bod i fynd i lan y môr go iawn eleni, mae'r plantos wedi cael llawer o brofiadau gwerthfawr.

Mae'r dosbarth iaith wedi troi yn weithdy môr ladron ac mae'r plant wedi bod yn cael llawer o hwyl yn yr ardal chwarae rôl tu mewn a thu allan.

Roedd y plant wrth eu boddau yn creu mapiau trysor ac yn peintio lluniau o fôr ladron cas!

Buom hefyd yn dysgu am gadw yn ddiogel yn yr haul a dyma lun o rai o'r plant wedi cynllunio a chreu het haul newydd i'w hunain.

Un prynhawn braf bu'r plant wrthi'n brysur yn creu graff o'u hoff flas hufen iâ – hufen iâ siocled oedd y mwyaf poblogaidd o bell ffordd!  A chafwyd syrpreis ar ddiwedd y pnawn pan gafodd pawb flasu eu hoff flas – diolch Mrs Howatson!





**Uned dan 7**

Mae Sialens y Filltir Fawr wedi cychwyn yn yr Uned Dan 7. Bob bore mae'r plant yn cerdded o amgylch y buarth tair gwaith sydd yn filltir. Am bob milltir mae na sticer yn cael ei roi ar ein wal ac ar ddiwedd yr hanner tymor byddwn yn cyfri sawl milltir yr ydym wedi ei gerdded!

Ein thema am yr hanner tymor yw 'Y Goedwig Law'. Rydym wedi bod yn dysgu am bwysigrwydd ein coedwigoedd law ac wedi ysgrifennu llythyr i bobl y byd.






**Uned dan 9**
Cawsom fis prysur iawn yn dysgu am wenyn. Fe wnaethom wahodd Mr Rhys Thomas atom a chawsom sgwrs arbennig ganddo am gadw gwenyn. Roedd y plant wrth ei boddau yn gweld y cwch gwenyn, ac wedi mwynhau ei weld yn gwisgo i fyny mewn siwt arbennig, a chawsom ambell stori ddiddorol ganddo!
Bu'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdy tenis. Daeth John o gwnmi First Advantage Tennis atom i ddysgu sgiliau newydd i'r plant. Y bwriad nawr gobeithio yw cael mwy o blant i fynd i gyrtiau tenis Dinbych am wersi.
Llongyfarchiadau mawr i Megan Eira ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth celf 3D yn Eisteddfod T eleni. Mae ei gwaith cywrain yn werth ei weld. Da iawn ti.
Mawr obeithio bod Cymru wedi gwneud yn dda yn yr Ewros erbyn i rifyn yma o'r Bigwn ddod allan. Cawsom bnawn bendigedig yn hybu y tim yn ei blaen ar ddechrau'r twrnament drwy ganu caneuon a dysgu am bwysigrwydd o'u Cymreigtod

**Uned dan 11**
Yn ffodus iawn i ni'r Cymry mae'r tim pel droed wedi helpu gyda brwdfrydedd y thema, ac rydym yn dilyn y tim hyd y diwedd. Ar nos Fercher cawsom ymgynull fel uned ar ol ysgol i wylio'r gem gyda'n gilydd, a dwi'n meddwl bod y plant a'r athrawon wedi gwirioni gyda'r canlyniad!
Ar hyn o bryd mae disgyblion blwyddyn 6 yn gweithio yn galed gyda Tara Dean ac yn gweithio yn y maes celfyddydau, yn ymchwilio ar gynefinoedd gwahannol yr ardal.
Wel wir mae wedi cyrraedd diwedd flwyddyn i'n disgyblion Blwyddyn 6. Lle mae'r amser yn mynd? Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael disgyblion arbennig eleni ac mi fydd hi'n chwith gweld y disgyblion blwyddyn 6 yn mynd. E rei bod hi wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb, mae nhw wedi ymateb i pob her sydd wedi dod o'i blaen a manteisio ar bob cyfle i gynrychioli Ysgol Twm O'r Nant. Diolch yn fawr i chi i gyd gan bawb o Ysgol Twm o'r Nant
Dyma ambell atgof gan rai o blant Blwyddyn 6.

## Alys Haf
Mae wedi bod yn brofiad anhygoel yn ysgol Twm o'r Nant. Rydw i wedi dysgu llawer o bethau gwahanol a pethau diddorol, ac wedi creu llawer o ffrindiau newydd. Rydw i am fethu yr athrawon hefyd gan fod wedi helpu fi gyda gymaint dros yr 8 blynedd diwethaf. Mi fydd gen i hiraeth mawr am yr ysgol yma. Pryd roeddwn i yn fach nid oeddwn eisiau dod i'r ysgol, ond rwan dydw i ddim eisiau gadael. Mae'r ysgol yma wedi rhoid llawer o brofiadau gwych fel actio a canu. Ond rydw i

wedi cyffroi i fynd i ysgol uwchradd hefyd.

### Flora

Rydw i wedi cael amser anhygoel yn ysgol Twm o'r Nant! Ni allwn fod wedi gofyn am athrawon gwell - mae nhw werth y byd! A dyma lle rydw i wedi gwneud y ffrindiau mwyaf caredig, diddorol, talentog, llawn hwyl - gobeithio y byddem yn ffrindiau am byth. Pan rydw i'n meddwl am Twm o'r Nant, dwi'n meddwl am chwerthin, chwarae a chael hwyl…a dysgu wrth gwrs! Mae'r cyfnodau clo wedi gwneud i mi sylweddoli faint mor bwysig mae'r ysgol i mi, dwi'n ei werthfawrogi mwy nag erioed. Mae gen i gymaint o atgofion hyfryd fel y tro nes i gael y cyfle i chwarae'r soddgrwth mewn cyngherdd, pan ddaeth Mark Williams, nofiwr para-olympaidd aur i siarad hefo ni, chwarae 'freeze-tag' gyda ffrindiau ar y buarth top, rhedeg y couch to 5k gyda'r holl uned dan 11 gan gynnwys yr athrawon i gyd! Na'i wir fethu fy amser yn Twm o'r Nant!

### Carys

Mae profiad yn ysgol Twm O'r Nant wedi bod yn anhygoel. O cychwyn meithrin tan blwyddyn 6 mae'r amser wedi hedfan. Rydw'i hefo llawer o atgofion arbenig. Un o fy atgofion gorau oedd edrych yn yr ardd hefo mis Meira am trychfilod, mynd am tripiu ysgol fel Glan Llyn a chael llawer o hwyl. Yn anffodus rydym ni wedi colli allan ar Llangranog ym mlwyddyn 5 a Chaerdydd ym mlwyddyn 6.

### Lleucu

Mae fy mrhofiadau yn Ysgol Twm o'r Nant wedi bod yn anhygoel, ers yr eiliad nes i ddod ir ysgol roeddwn i wrth fy modd. Mae gen i gymaint o atgofion arbenig yn yr ysgol hon fel mynd ar dripiau ysgol, cystadlu yn yr Eisteddfod, canu, actio a cael llawer o hwyl. Ar ol bod yn Ysgol Twm o'r Nant am 8 blynedd mae'n anodd gadael ond 'nai gofio yr ysgol hon am byth, 'nai gofio chwarae hefo tywod a mwd yn yr uned dan 5, chwarae bod yn milfeddygion yn yr uned dan 7, actio yn y cwis lyfrau yn yr uned dan 9 ac yn anffodus gadael yn yr uned dan 11

.

### Anna

Mae fy mhrofiadau yn Ysgol Twm O'r Nant wedi bod yn arbennig. Yn yr Ysgol yma dw'i wedi cael amser o fy mywyd wrth fynd am dripiau, eisteddfodau a llawer mwy. Mae'r profiadau rydw i wedi cael yn yr ysgol yn fythgofiadwy, dwi' methu meddwl am adael yr ysgol ardderchog yma. Cefais athrawon gwych a dysgais gymaint ganddynt ac rwy'n gobeithio bydd yr amser sydd gennym ar ôl yn yr ysgol yn mynd yn araf iawn. Rydw i hefyd wedi gwneud ffrindiau newydd bendigedig a llawn hwyl ac rydw i yn andros o drist i adael nhw ym Mrynhyfryd. Mae Covid-19 wedi effeithio yn fawr. Oherwydd Covid, rydym wedi methu llawer o brofiadau ond hefyd wedi cael un newydd, gweithio o adref. Fy hoff atgof i yw mynd i Glan Llyn a picnic hefo tedis. Dydw i byth yn mynd i anghofio yr ysgol yma, ond yn anffodus ar ôl 8 mlynedd yn yr ysgol rydym nawr yn gadael.

### Ayesha


Mae Ysgol Twm o'r Nant yn ysgol llawn o pobol da. Mae'n hwyl, mae'r athrawon yn glên iawn, ac yn groesawgar i bawb. Mae gwersi Ysgol Twm o'r Nant yn hwyl a rydan ni'n cael pobol mewn weithiau am gwaith cynefin. Dwi'n meddwl mae rhan fwyaf o blwyddyn chwech yn mynd i fod yn drist yn gadael yr ysgol, mae pawb wedi gwneud ffrindiau da. Mae pawb hefo atgofion da a dwi' ddim yn meddwl bod atgofion drwg am ein hamser yn yr ysgol. Yn anffodus iawn roedden ni wedi methu allan ar Llangrannog a Caerdydd, ond oedd ni hefyd wedi mynd i Pili palas a llefydd eraill.

### Sion


Mae'r profiadau yn Ysgol Twm o'r Nant wedi bod yn anhygoel. O fy niwrnod cyntaf yn meithrin i'r holl ffordd i flwyddyn 6. Mae'r athrawon wedi fy nghefnogi trwy'r dyddiau, ac wedi fy helpu dros y blynyddoedd. Hefo tripiau ysgol fel: Glan llyn a Pili Palas, cystadlu mewn eisteddfodau ac cael llawer o brofiadau angrhedadwy, ond yn anffodus mae Covid-19 wedi effeithio ar hynny, yn fawr, methon ni llawer o brofiadau, ond hefyd cawson brofiadau na allem fod wedi'i gael pe na bai hyn wedi digwydd. Digwyddodd llawer o bethau da a drwg dros y cyfnod yma llawer o nosweithiau yn gobeithio i ddod yn ol i'r ysgol rhyw ddydd, ac nawr rydym yn ol ac yn anffodus angen gadael yr ysgol gorau'r byd a symud ymlaen i pennod newydd ein bywyd.

### Mari

Mae yr amser i blwyddyn chwech bron wedi dod i ben, mae Ysgol Twm o'r Nant fel ail gartref i mi ac i bawb. Mae wyth blwyddyn yn hedfan yn gyflym, rhan fwyaf o fy mywyd dwi wedi bod yn yr ysgol anhygoel yma, mae'n drist dim ond yn meddwl ei'n bod yn tyfu i fyny ac un diwrnod byddwn ni'n oedolion. Pryd wnes i ddechrau yn Twm o'r Nant roeddwn i yn boenus o swil ond ar y fordd gwnaeth fy athrawon helpu i fod yn fwy hyderus ac i fod yn pwy dwi yn heddiw. Dwi' yn diolch i pawb o fy frindiau, fy athrawon ac fy rhieni. Dwi' hefo llawer o atgofion llon a llawen yn Twm o'r Nant ac fyddai yn cadw fel trysor aur. Fy hoff atgof yn Twm o'r Nant oedd mynd i mewn i carafan Mrs Meira a oedd rhyw sut yn fyd gwahannol i mi. Dwi' mor falch hefo pawb sydd yn blwyddyn chwech, dwi' bron iawn wedi cyraedd pen y mynydd, dwi'n mynd i barhau i wneud fy nghorau yn ysgol uwchradd a gwneud ffrindiau newydd.



Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Cornel y Plant

Y BIGWN

## Yr Haf

Mae 8 gwahaniaeth yn y lluniau isod, a fedrwch chi eu gweld nhw?





## Chwilair Yr Haf

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| s | t | ŵ | u | l | l | u | a | h | i | l | e |
| b | ô | e | i | u | e | d | ŵ | s | c | ô | h |
| e | i | l | a | e | f | o | i | c | y | s | c |
| c | ô | h | c | h | a | g | s | y | b | a | w |
| t | r | a | e | t | h | w | n | s | e | r | l |
| o | h | ŵ | k | a | g | a | d | g | h | a | e |
| l | a | l | u | h | o | h | g | o | c | p | o |
| h | c | w | l | e | g | o | i | d | r | i | d |
| a | s | ô | ŵ | t | t | w | h | w | i | g | l |
| u | d | t | r | d | s | y | r | r | t | o | u |
| l | r | h | c | d | b | ŵ | g | e | o | h | d |
| ŵ | a | e | t | w | d | h | ô | e | s | l | a |

| | | |
|---|---|---|
| haul | het | haf |
| parasôl | diod | cysgod |
| eli haul | gwres | diogelwch |
| dŵr | traeth | sbectol haul |



Lliwiwch y llun

Fe gyhoeddir y rhifyn nesaf o'r Bigwn ym mis Hydref, a phwy a ŵyr mewn gwirionedd beth fydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus erbyn hynny? Ond ar ddiwedd mis Mai fe ddatgelwyd cynlluniau ar gyfer y cystadlaethau rygbi cymunedol cyntaf a drefnwyd gan Undeb Rygbi Cymru ers i'r holl rygbi gael ei atal oherwydd COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Bydd yr uwch gystadlaethau cyntaf, 15 bob ochr ar gyfer chwaraewyr hŷn (dynion a merched) a chwaraeir o dan reolau wedi'u haddasu i leihau cyswllt yn y sgrym a'r sgarmes rydd, yn rhedeg o fis Awst i fis Rhagfyr.

Awst 1af ydi'r dyddiad pan fydd gemau cyfeillgar 15 bob ochr yn cael eu chwarae - rhyw 16 mis ar ôl y gemau olaf a chwaraewyd ym mis Mawrth 2020. Fel rhan o'r cynllun dychwelyd i chwarae, bydd tîm y dynion yn chwarae cyfres o gemau 10 bob ochr, gyda'r cyntaf ar Orffennaf 3ydd yn erbyn Clwb Rygbi Bro Gwernant sydd yn enw newydd i Glwb Rygbi Llangollen/Glyn Ceiriog.

Yn y cyfamser mae nifer o weithgareddau ar y gweill yn y Clwb, ac efallai mai'r un mwyaf positif a chyffrous yw'r SESIYNAU BLASU RYGBI I FERCHED. Mae Clwb Rygbi Dinbych wedi bod yn cynnal y sesiynau hyn i ferched dros 18 oed ers dydd Mercher, Mehefin 9fed yng Nghaeau Les Phillips. Yn y tair sesiwn sydd wedi bod ers hynny, gwelwyd, ar gyfartaledd, tuag ugain yn troi allan i bob sesiwn. Nid oes rhaid bod â phrofiad blaenorol o Rygbi'r Undeb, mae'r pwyslais ar hwyl, cymdeithasu a ffitrwydd yn y sesiynau agoriadol. Os oes gennych ddiddordeb ac i gael rhagor o wybodaeth am y sesiynau, cysylltwch â David (ar 07770 651035 neu david.jones@edwardhughes.uk) neu Ela (ar 07775 885964). Cynhelir y sesiynau am 7.00 o'r gloch ar nos Fercher. Mae croeso cynnes i bawb.

Mawr oedd y dathlu yn y Clwb ar ôl clywed y newyddion fod Undeb Rygbi Cymru wedi cytuno apwyntio Swyddog Datblygu Rygbi yn y dref. Bydd yr unigolyn yn gweithio gyda'r Ysgol Uwchradd, ysgolion cynradd lleol ac hefyd yng Nghlwb Rygbi Dinbych.

Mae nifer dda wedi bod yn gwylio gemau pêl droed Cymru yn yr 'Ewros' ar y ddau deledu enfawr newydd yn y Clwb. Yn ogystal â'r gemau pêl droed, bydd y Clwb ar agor ar ddyddiau gemau'r Llewod lawr yn Ne Affrica. Bydd gêm cyntaf y Llewod am 5.00 p'nawn Sadwrn Gorffennaf 3ydd.

Mae'r maes ymarfer newydd wedi elwa o'r llonydd mae wedi ei gael yn ystod y cyfnodau clo, a'r tywydd eleni wedi bod yn llawer mwy ffafriol i'r tyfiant newydd. Er fod dipyn golew o waith dal i'w wneud, mae'r cae'n edrych yn bictiwr yn yr haul!

Fe gychwynodd y prosiect yn Hydref 2019, gyda chost o £50,000 yn cynnwys grantiau o £30,000 gan Undeb Rygbi Cymru a Chwaraeon Cymru. Y gobaith yw cwblhau'r gwaith ym mis Gorffennaf 2021, gyda goleuadau LED newydd yn cael eu gosod cyn yr Hydref, gyda chost o £37,000. Mae'r Clwb wedi derbyn grantiau hyd at £27,000 tuag at y gwaith hwn gan y canlynol:

Mentrau Cymunedol
Grŵp Cynefin
Cronfa Budd Cymunedol
Fferm Wynt Brenig
Cronfa Budd Fferm Wynt Clocaenog
Cyngor Tref Dinbych
Cyngor Sir Ddinbych
Symiau Cymudol*

(*Yn ôl gwefan Cyngor Sir Ddinbych, "Mae Swm Cymudol yn daliad gan ddatblygwyr i awdurdod lleol pan nad oes modd creu man awyr agored mewn datblygiad. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella mannau agored a mannau chwarae, fel rheol yn yr un dref neu gymuned â'r datblygiad.")

Mawr obeithiwn y byddwn yn gallu cynnwys rhywfaint o wybodaeth am ychydig o gemau rygbi yn y rhifynnau nesaf a mwynhewch gweddill yr haf!

CYFRANIADAU GAN:
Tegid Phillips
Walter Roberts
John Davies

## Y BIGWN - YSGRIFENNYDD

Rydym yn chwilio am Ysgrifennydd cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
Bedwyr Griffiths 01745 814497ed321@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659stanmaberic@hotmail.com





LLUNIAU O'R MAES YMARFER NEWYDD